Gorffennaf 2024

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Swyddog Monitro Grantiau

## Pecyn Swydd

# Croeso!



Ni yw Sefydliad Cymunedol Cymru ac rydyn ni yma i ysbrydoli pobl i roi, helpu cymunedau Cymru i ffynnu a newid bywydau gyda'n gilydd.

Rydym wedi rhoi dros £40m i bobl a grwpiau cymunedol ledled Cymru er 1999 – dipyn o stori!

Nawr rydyn ni'n chwilio am Swyddog Monitro Grantiau i ymuno â'n tîm gwych – ac i'n helpu i barhau i dyfu er mwyn i ni allu newid mwy o fywydau ledled Cymru.

Rydym wedi tyfu dros y 25 mlynedd diwethaf ac erbyn hyn mae gennym gynlluniau mawr ar gyfer datblygu ymhellach, drwy annog mwy o ddyngarwch a rhoi yng Nghymru, fel y gallwn gryfhau'r gefnogaeth a roddwn ymhellach i gymunedau ac elusennau lleol.

Y llynedd, fe wnaethom ddyfarnu £2.3m mewn cyllid, i 571 o grwpiau ac unigolion. Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn derbyn incwm o'i gronfa waddol sydd bellach yn gyfanswm o £21m, a hefyd drwy ddarparu gwasanaethau rhaglen grantiau ledled Cymru.

Felly, dyma'r amser perffaith i ymuno â ni.

Mae gennym bartneriaeth ariannu newydd gref gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality i helpu i wella iechyd a lles ac adeiladu sgiliau a thalent cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ddiweddar lansiwyd dwy gronfa allweddol i fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu cymunedau Cymru - ein Cronfa Croeso Cenedl Noddfa a'n Cronfa Costau Byw, Ein Cymunedau Gyda'n Gilydd.

Mae hyn ochr yn ochr â dosbarthu arian o gynlluniau grant eraill.
Mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair. Mae ymchwil diweddar yn darogan twf cryf mewn rhoi dyngarol a gynghorir gan roddwyr.

Er hyn, mae gennym fwy o waith i'w wneud i rannu ein stori yng Nghymru, estyn allan a chysylltu â mwy o gefnogwyr posibl ac i ddarlunio'n well yr effaith yr ydym yn ei chael mewn cymunedau lleol.

Mae'r swydd hon yn berffaith ar gyfer rhywun sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i bobl yng Nghymru. Mae'n gyfle gwych i rywun sy'n ceisio hyblygrwydd trwy gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a sydd eu hunain yn gallu bod yn hyblyg.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ymgeiswyr sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog, sy'n ddelfrydol yn gallu cynnal sgyrsiau yn y Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn creu amgylchedd gwaith cynhwysol, felly byddem yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr o leiafrifoedd sy’n cael eu tangynrychioli.

Rydym am fod mor hygyrch â phosibl ac yn eich croesawu i gysylltu ag Asha Vijendran, Pennaeth Gweithrediadau Grantiau, i drafod y rôl a thrafod eich gofynion hygyrchedd. Gallwch anfon e-bost at Asha yn asha@communityfoundationwales.org.uk i drefnu galwad.

Rydym yn dilyn proses recriwtio deg ac agored sy’n chwalu’r rhwystrau rhag penodi staff talentog o gefndiroedd a chymunedau amrywiol drwy ddileu unrhyw ddata o’r broses llunio rhestr fer a allai ddatgelu hunaniaeth ymgeisydd.

Mae ein gwaith casglu data cydraddoldeb yn ddienw a dim ond er mwyn i ni asesu ein cyrhaeddiad y byddwn yn ei ddefnyddio yn hytrach nag er mwyn cyfrannu at y broses recriwtio. Rydym yn ymdrechu i gael cynrychiolaeth amrywiol ar y panel cyfweld, er mwyn helpu i wneud ymgeiswyr yn gyfforddus.

Rydym yn canolbwyntio’n gryf ar les y tîm ac ar ddatblygu sgiliau personol a sgiliau gwaith. Mae digon o gyfleoedd i ddysgu, a chwrdd â phobl ddiddorol sy’n gwneud pethau gwych ledled Cymru, yn ogystal â gweithio’n agos gyda’n Hymddiriedolwyr.

Drwy’r pecyn hwn, rwy’n gobeithio y byddwch yn mwynhau dysgu ychydig amdanom ni a’r gwaith pwysig sy’n digwydd yma a’ch bod yn teimlo mai ni yw’r math o sefydliad yr hoffech fod yn rhan ohono.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.




**Richard Williams**
**Prif Weithredwr**

# Ein Cefndir

Rydyn ni’n ysbrydoli pobl i roi, helpu cymunedau yng Nghymru i ffynnu a newid bywydau gyda’n gilydd.

Dros 25 mlynedd, mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi bod yn cefnogi elusennau a grwpiau cymunedol gyda chyllid i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

Gan weithio gyda’n cefnogwyr a’n partneriaid hael, rydym yn canfod ac yn ariannu prosiectau lleol sy’n helpu i gryfhau cymunedau ledled Cymru.

Mae ein partneriaethau yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y gymuned sydd, yn ei dro, yn ein helpu i lunio cronfeydd a chynghori ein rhoddwyr i sicrhau ein bod yn rhoi mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

Rydym yn cofnodi ac yn rhannu’r hyn rydym wedi’i ddysgu o’n gwaith dyngarol a’n gwaith dyrannu grantiau er mwyn cyfrannu at ein datblygiad parhaus a dylanwadu ar eraill mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth.

Mae dros 42,000 o grwpiau cymunedol ac elusennau yng Nghymru yn gweithio i wella a datblygu eu cymunedau, gan ddefnyddio eu mentergarwch i ddiwallu anghenion lleol. Mae’r grwpiau a’r elusennau hyn yn deall yr heriau sy’n wynebu pobl yn eu cymuned ac yn gwybod beth yw’r ffordd orau o fynd i’r afael â’r rhwystrau hyn.

Mae’r gwaith hanfodol hwn yn aml yn cael ei wneud ar sail cyllideb fach neu wirfoddol, felly rydyn ni’n canolbwyntio ar ddod o hyd i’r prosiectau a’r sefydliadau gwych hyn, gan ddeall beth maen nhw’n ceisio’i gyflawni a’u cefnogi i wneud hynny.








# Manteision gweithio gyda ni:

- **Eich llesiant:** Trefniadau gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cyfleon hyfforddiant a datblygu yn ogystal a dau ddiwrnod y flwyddyn i wirfoddoli yn eich cymuned leol (pro rata ar gyfer gweithio rhan amser).
- **Eich iechyd:** 25 diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata ar gyfer gweithio rhan amser) a gwyliau banc yn ogystal â 3 diwrnod o wyliau ychwanegol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, cydnabyddiaeth am wasanaeth hir ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth di-dor, cynllun beicio i'r gwaith, prawf llygaid am ddim â thâl cynlluniau llesiant misol, mynediad at ap Health Assured.
- **I'ch diogelwch ariannol:** cynllun pensiwn cyfrannol o 5%, adolygiad cyflog blynyddol, tâl mamolaeth uwch, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu, rhaglen cymorth i weithwyr sy'n ymestyn i deulu.

# Ein Gwerthoedd

Rydym yn sefydliad sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae ein gwerthoedd wedi deillio o'n tîm, yn siapio sut rydyn ni'n gweithio ac wedi eu gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

### Rydym yn bartneriaid da

- Rydyn ni'n parchu ac yn gwerthfawrogi ein partneriaid, boed hwy yn rhan o'n staff a'n tîm ymddiriedolwyr, rhoddwyr, cefnogwyr a'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw.
- Rydym yn deall bod partneriaeth yn ein gwneud yn gryfach ac yn ein helpu i gyflawni mwy.
- Rydyn ni'n gwrando ac yn defnyddio ein sgiliau a'n harbenigedd i helpu pobl i wneud penderfyniadau gwych a sicrhau canlyniadau.

### Mae'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn bwysig i ni

- Rydyn ni'n gynnes, yn ofalgar ac yn ystyriol.
- Rydyn ni'n gweithredu'n ddiffuant.
- Rydym yn gwneud ein gorau glas dros bobl yng Nghymru.

### Rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth

- Yr ydym wedi ymrwymo i wella bywydau yng Nghymru.
- Rydyn ni'n rhoi cynnig ar bethau newydd, rydyn ni'n datrys problemau ac rydyn ni'n dysgu.
- Yr ydym yn rhagweithiol ac yn uchelgeisiol.





# Sut beth yw gweithio yma?



Mae gweithio i CFW yn brofiad gwerth chweil, mae'n amgylchedd tîm cefnogol sy'n frwd iawn dros helpu cymunedau i ffynnu. Mae cydbwysedd da o waith a hwyl i'w gael bob amser, sy'n fantais wirioneddol.

**Ceri Thomas, Swyddog Grantiau**



Rwy'n hapus iawn yn gweithio yn CFW. Mae'n 'canolbwyntio ar bobl' ar gyfer ein cleientiaid a'n staff ac mae'n sensitif iawn ac yn gallu addasu i'r amgylchedd gwaith newidiol sydd wedi bod yn esblygu, yn enwedig ers y pandemig, gan gydbwyso hyblygrwydd staff yn berffaith ag anghenion busnes.

**Carol Doyle, Cynorthwyydd Cyllid**



Mae CFW yn lle gwych i weithio ynddo, mae'n amgylchedd hamddenol a chyfeillgar ond gyda lefel uchel o broffesiynoldeb. Mae'r agwedd tuag at staff yn ofalgar iawn ac mae lles yn flaenoriaeth allweddol. Yn gyfnewid am hynny, mae'r staff yn rhoi o'u hamser i gyflawni amcanion CFW. Mae cyfathrebu'n agored ac yn onest ar bob lefel, sy'n helpu i greu tîm cryf sy'n ymddiried yn ei gilydd.

**Smitha Coughlan, Pennaeth Cyllid**

> 
>
> Rydw i wedi gweithio mewn sefydliadau llawer mwy o'r blaen, a beth wnaeth fy nharo pan ddechreuais i weithio gyda CFW oedd pa mor effeithlon a chadarnhaol oedd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i atebion i broblemau ac i ddatrys heriau.
>
> Mae llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn cyrsiau datblygiad proffesiynol os oes rhywbeth rydych chi eisiau adeiladu arno, ac mae pawb yn cael ei annog i symud ymlaen yn eu rôl. Mae hyblygrwydd yn allweddol yn CFW – os oes angen amser arnoch i fynd i apwyntiad meddyg, gweld drama ysgol eich plentyn neu fynd â'r car am ei MOT, nid yw byth yn broblem ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni eich gwaith, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr.

**Katy Hales, Cyfarwyddwr Dyngarwch**







# Gwybodaeth am y rôl

Mae rôl y Swyddog Monitro Grantiau yn eistedd wrth galon Sefydliad Cymunedol Cymru. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â thri Swyddog Grantiau arall a fydd yn cynnig cymorth ac arweiniad wrth i chi setlo yn eich rôl. O fewn y Tîm, byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ffurflenni monitro grantiau yn cael eu derbyn ar amser a'u bod o ansawdd digonol i'n galluogi i roi gwybod am effaith ein cronfeydd. Mae ein rhaglenni grant yn amrywio o grantiau addysg lleol mewn rhannau gwledig o Gymru i raglenni ledled Cymru sy'n mynd i'r afael â materion eang sy'n wynebu grwpiau cymunedol.

Mewn wythnos arferol, efallai y byddwch yn trefnu galwadau gyda grwpiau cymunedol i ddysgu mwy am y prosiect y maent wedi'i gwblhau; adolygu ffurflenni monitro er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y maent wedi'i rhannu yn foddhaol; cwblhau asesiadau ar geisiadau a dderbyniwyd; ymgymryd â rheoli a dadansoddi data i gynhyrchu dysgu allweddol ar ganlyniadau dyfarnu grantiau Sefydliad Cymunedol Cymru, neu weithio'n agos gyda'n Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i sicrhau bod gennym astudiaethau achos ysbrydoledig, sy'n tynnu sylw at waith anhygoel cymunedau ledled Cymru.

Bydd y rôl hefyd yn cefnogi'r Pennaeth Gweithrediadau Grantiau i sbarduno rheolaeth effeithlon ac effeithiol o'n system CRM (Salesforce), gan ysbrydoli arloesedd ar sut y gall ein system gefnogi grwpiau cymunedol ac unigolion i gael cyllid gennym ymhellach. Yn ogystal â hyn, bydd y rôl yn cefnogi gweithrediadau dydd i ddydd ein gwaith dyfarnu grantiau a rhaglenni.

Rydym yn chwilio am unigolyn disglair a brwdfrydig sydd ag angerdd am ymgysylltu â'r gymuned, ymchwilio i anghenion lleol, dadansoddi data, tynnu sylw at dueddiadau, datrys problemau a chefnogi gofynion adrodd ehangach.

Byddai'r rôl hon yn addas i rywun sydd â dealltwriaeth o faterion cymdeithasol ac sy'n angerddol am rôl y sector gwirfoddol yng Nghymru neu sy'n awyddus iawn i ddysgu.







# Disgrifiad swydd - Swyddog Monitro Grantiau

**Oriau:** Rhan amser - 22.5 awr yr wythnos. Yn achlysurol bydd angen gweithio ar nosweithiau, penwythnosau ac aros dros nos.

**Cyflog:** £24,000 pro rata.

**Yn atebol i:** Pennaeth Gweithrediadau Grantiau.

**Lleoliad:** Gweithio hybrid: Gweithio gartref a swyddfa Caerdydd (1-2 diwrnod yr wythnos fel arfer). Byddem yn ystyried bod y swydd hon yn seiliedig gartref i'r ymgeisydd cywir, gydag ymweliad misol â'r swyddfa yng Nghaerdydd.

**Cytundeb:** Cyfnod Mamolaeth: Cyfnod penodol o 12 mis. Disgwylir i'r rôl ddechrau ganol mis Hydref 2024, ond mae hyn yn hyblyg.

**Buddion:** 25 diwrnod o wyliau y flwyddyn pro rata, yn ogystal â gwyliau cyhoeddus, yn ogystal â thri diwrnod ychwanegol o wyliau dros gyfnod y Nadolig, pensiwn cyfrannol 5%, sesiynau lles misol, cynllun beicio i'r gwaith.

## Tasgau a chyfrifoldebau allweddol

### Gweinyddu a chydlynu grantiau

Gan weithio o fewn Polisi a Gweithdrefnau Grantiau, ymgymryd â dyletswyddau gweinyddu grantiau a chydlynu, sy'n cynnwys:

- Cefnogi'r tîm i ddatblygu grantiau a rhaglenni'r Sefydliad gan weithio i sicrhau'r safon uchaf o ofal i gleientiaid.
- Sicrhau bod yr holl ffurflenni monitro grantiau'n cael eu derbyn ar amser a'u bod o ansawdd digonol i'n galluogi i roi gwybod am effaith arian yn ôl i'n rhoddwyr. Mae hyn yn cynnwys:
    - asesu a gwerthuso'r wybodaeth a dderbynnir mewn ffurflenni monitro,
    - cefnogi ymgeiswyr gydag ymholiadau am y broses fonitro,
    - gofyn am unrhyw wybodaeth sydd ar goll gan grantïon,
    - nodi grantïon sydd wedi torri'r Telerau ac Amodau e.e. gwario arian ar wahanol gostau ac adrodd i reolwr i gytuno ar y camau nesaf,
    - trefnu ymweliadau â grantïon mae gennym bryderon amdanynt ar ôl cyflwyno gwaith monitro neu fethu â chyflwyno,
    - nodi unrhyw danwariant o fewn prosiectau a chytuno ar y camau nesaf,
    - mynd ar drywydd unrhyw ffurflenni monitro nad ydynt yn cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad dyledus.
- Adeiladu perthynas â grantïon, yn enwedig y rhai sydd â grantiau aml-flwyddyn i ddatblygu partneriaeth waith gref sy'n meithrin gonestrwydd ac ymddiriedaeth.
- Rheoli a chydlynu portffolio bach o raglenni grant, o'r dechrau i'r diwedd, sy'n cynnwys asesiadau grant, cydlynu cyfarfodydd panel, canlyniadau ar ôl panel, taliadau cyllid, dadansoddi monitro a gwerthuso.
- Manteisio i'r eithaf ar y defnydd o'n systemau a'n cronfa ddata i gefnogi gweinyddu, dadansoddi ac adrodd ehangach sy'n gwneud grantiau.

### Datblygu Busnes

Gweithio gyda'r tîm ehangach i ymgymryd â dyletswyddau cymorth datblygu busnes, gan gynnwys:

- Cadw gwybodaeth am y cleient/rhaglen grant yn gyfredol ar y gronfa ddata.
- Cefnogi cynhyrchu adroddiadau effaith, dadansoddi data a thueddiadau grant a sector i lywio ein gwaith. Er enghraifft, wrth brosesu ffurflenni monitro, nodi prosiectau y gellir eu cynnwys fel astudiaeth achos yn ein Hadroddiadau Effaith, yn ogystal â chynnwys ar gyfer ein gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac ati.

### Cyfathrebu

Ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar wneud grantiau, gan gynnwys:

- Ymateb yn brydlon i gyllid, ceisiadau grant, ac ymholiadau buddiolwyr dros y ffôn/fideo, e-bost a llythyr.
- Gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu a Marchnata i ddiweddaru ein gwefan, sianeli cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau gydag astudiaethau achos a chynnwys deniadol.
- Gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, gan feithrin partneriaethau cryf ac ymwybyddiaeth gynyddol am Sefydliad Cymunedol Cymru a'n heffaith.

### Gweinyddiaeth ariannol

Ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol ariannol yn ôl yr angen, gan gynnwys:

- Defnyddio Salesforce i gofnodi data ariannol yn gywir.
- Cefnogi gweinyddu taliadau grant yn ariannol e.e. cymeradwyo taliadau sy'n amodol ar dderbyn ffurflen fonitro foddhaol.

### Arall

- Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau perthnasol a neilltuwyd gan y Pennaeth Gweithrediadau Grantiau.
- Mynychu cyfarfodydd tîm yn ôl yr angen.
- Gweithio yn unol â safonau, polisïau ac amcanion Achredu Ansawdd Sefydliad Cymunedol Cymru, a chenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd.
- Hyrwyddo brand ac ethos Sefydliad Cymunedol Cymru mewn modd cryf a chadarnhaol bob amser.
- Gweithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau Grantiau ar reoli a datblygu ein system CRM Salesforce, i gynnwys symleiddio, gwella prosesau ac ehangu ymarferoldeb.

# Sgiliau a Phrofiad Allweddol

## Hanfodol

- Profiad o fod yn hunan-reoli - cymhelliant a disgybledig wrth reoli llwyth gwaith, blaenoriaethau a thargedau eich hun.
- Profiad amlwg o weithio mewn rôl sy'n canolbwyntio ar CRM, byddai gwybodaeth am Salesforce yn fanteisiol.
- Ymrwymiad i greu, rheoli a meithrin ystod o berthnasoedd â buddiolwyr, partneriaid a rhoddwyr, yn ogystal â chydweithio â staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr.
- Yn gallu gweithio ar nifer o brosiectau ar y pryd, wrth weithio i derfynau amser tynn a delio a phwysau, gyda phrofiad o ddangos ymagwedd broffesiynol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.
- Sgiliau cyfathrebu cryf gan gynnwys gwaith llafar ac ysgrifenedig; gwaith adrodd ac ymchwil.
- Gwybodaeth weithredol o ystod o systemau TG, megis Canva, Salesforce Lightening and Experience Cloud, Office 365 (Outlook, Forms, Word, Excel, SharePoint, Co-Pilot), Hootsuite, Form Assebly, Conga, Pick Time, ac ati.
- Y gallu i weithio i'n gwerthoedd. Profiad o weithio mewn swyddfa a/neu amgylchedd elusennol.
- Profiad o weithio mewn swyddfa a/neu amgylchedd elusennol.

## Dymunol

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg. Rydym yn sefydliad dwyieithog a byddai'r gallu i weithio yn y Gymraeg yn fantais gref i ymgeisydd gyda'r holl sgiliau a phrofiad rydym yn chwilio amdanynt.
- Gwybodaeth a mewnwelediad i'r sector gwirfoddol yng Nghymru a'i anghenion.
- Profiad o asesu effaith rhaglenni grant a nodi anghenion cyllido yn y dyfodol.
- Yn alluog ac yn barod i deithio, yn bennaf yng Nghymru.
- Profiad o ddefnyddio Salesforce (gweinyddu, datblygu ac adrodd).

# Sut i wneud cais

**Cyflwynwch CV ynghyd â llythyr eglurhaol** sy'n tynnu sylw at pam yr hoffech weithio yn Sefydliad Cymunedol Cymru, beth wnaeth eich denu i ystyried y rôl hon, a sut y bydd eich profiad a'ch arbenigedd yn ychwanegu gwerth at ein gwaith, gan helpu Sefydliad Cymunedol Cymru i gyflawni ei uchelgeisiau.

Anfonwch eich CV a'ch llythyr eglurhaol, ynghyd â ffurflen monitro cyfle cyfartal wedi'i chwblhau, i finance@communityfoundationwales.org.uk gyda'r llinell pwnc **'Cais am rôl Swyddog Monitro Grantiau.'**

Rydym yn gwybod y gall cyfweliadau fod yn brofiad brawychus. Os ydych chi ar y rhestr fer, rydyn ni am eich rhoi chi'n fwy cartrefol drwy:

- cynnig cyfle i siarad ag aelod o'r tîm cyn cyfweliad i sgwrsio am y Sefydliad a sut brofiad yw gweithio yma, i'ch helpu i ddod i'n hadnabod yn well.
- Ymrwymo i ddeall yn llawn unrhyw anghenion ychwanegol a/neu unrhyw ofynion mynediad sydd gennych, a rhoi unrhyw ofynion angenrheidiol ar waith o fewn da bryd.
- rhannu rhai o gwestiynau'r cyfweliad ymlaen llaw, fel y gallwch fod yn barod yn dda, a theimlo'n fwy o reolaeth a chyfforddus, a fydd hefyd yn ein helpu i gael y gorau ohonoch chi.
- sicrhau panel cyfweld sy'n cynrychioli ymgeiswyr.

Rydym am i'r profiad fod yn un dymunol y byddwch chi'n myfyrio arno'n gadarnhaol waeth beth fo'r canlyniad. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddarllen amdanoch chi, i ddod i'ch adnabod ymhellach.

Rhestrir y dyddiadau a'r camau allweddol isod:

- **Archebwch alwad gydag Asha, Pennaeth Gweithrediadau Grantiau** i ddysgu mwy am y rôl.
- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau** – Dydd Sul 18 Awst 2024.
- **Gwahoddwch ymgeiswyr i gyfweliad** – Erbyn dydd Iau 22 Awst 2024.

  Nodwch mai dim ond ymgeiswyr llwyddiannus fydd yn cael eu cysylltu.
- **Cyfle i ymgeiswyr dethol siarad ag aelod o staff** – Wythnos yn dechrau 26 Awst 2024
- **Cyfweliadau** – Dydd Mercher 4 Medi 2024.

# Pob lwc gyda'ch cais!